

Patrwm cyflwyno: O fis Hydref i fis Mehefin

Disgrifiad o'r modiwl

Dyma'r modiwl lefel 1 gorfodol rhagarweiniol ar gyfer gradd BA (Anrh) Astudiaethau Addysg (Cynradd) (Q94). Fe'i hanelir at fyfyrwyr sydd â diddordeb mewn addysg gynradd, ac yn enwedig y rhai hynny sydd am fod yn athrawon cynradd, neu sydd am ddilyn gyrfaedd eraill ym maes addysg. Bydd y myfyrwyr yn astudio amrywiaeth o themâu yn ymwneud ag addysg gynradd, gan gynnwys: astudio dysgu'r plant; addysg gynhwysol; chwarae a chreadigrwydd; cyswllt â'r cartref; a meysydd Saesneg, Mathemateg a Gwyddoniaeth y cwricwlwm. Byddant hefyd yn meithrin y wybodaeth a'r sgiliau sydd eu hangen i weithio mewn modd cydweithredol a theg mewn amrywiaeth o sefyllfaoedd, gan gynnwys: gwerthuso a rhannu gwybodaeth ag eraill yn effeithiol, defnyddio amrywiaeth o dechnolegau digidol yn effeithiol wrth astudio, cydweithio ar-lein ac i gefnogi eu datblygiad proffesiynol parhaus, cynllunio a rheoli amser a thasgau a gweithio i derfynau amser, nodi cryfderau a meysydd i'w datblygu, a cheisio adborth a dysgu oddi wrtho.

Manyleb y person

Dylid darllen manyleb y person ar gyfer y modiwl hwn yn unol â'r [fanyleb gyffredinol](#) ar gyfer darlithydd cyswllt yn Y Brifysgol Agored.

Yn ogystal â bodloni'r holl ofynion a nodir yn y fanyleb gyffredinol, dylech feddu ar y canlynol:

- gradd a statws athro cymwysedig
- profiad o weithio fel athro canradd neu addysgwr athrawon
- dealltwriaeth eang o addysg gynradd, gan gynnwys theori ac ymchwil berthnasol
- dealltwriaeth o rôl staff addysgu a chymorth mewn ysgolion cynradd
- profiad o asesu a rhoi adborth ysgrifenedig effeithiol ar aseiniadau a luniwyd gan ddysgwyr sy'n oedolion
- y parodrwydd a'r gallu i helpu myfyrwyr i ddefnyddio tiwtorialau wyneb yn wyneb ac ar-lein a'u helpu i feithrin sgiliau ar gyfer astudio ar-lein yn effeithiol

Byddai'n fanteisiol pe byddech yn meddu ar y canlynol:

- Profiad o weithio gydag eraill i ddarparu hyfforddiant

Gwybodaeth ychwanegol

Yn ogystal â deunydd astudio argraffedig traddodiadol, mae E103 yn cynnwys cryn dipyn o astudio ar-lein, a disgwylir i diwtoriaid fynd ati'n rhagweithiol i gefnogi eu myfyrwyr i ymgysylltu'n hyderus ac yn effeithiol ar-lein. Bydd y cymorth hwn yn cynnwys:

- dechrau a chefnogi llinynnau trafod ar-lein rheolaidd, cymedroli/addysgu ar fforwm grŵp tiwtor eich myfyrwyr
- cynnwys gweithgareddau tiwtorial sy'n gofyn i fyfyrwyr ddefnyddio amrywiaeth o nodweddion ar-lein y modiwl, ac ymateb i unrhyw anawsterau y gallai myfyrwyr eu hwynebu mewn perthynas â'r rhain
- cysylltu â myfyrwyr unigol drwy neges e-bost bersonol a, lle y bo'n briodol, ag aelodau o dîm y modiwl
- darllen a gwneud postadau ar fforwm tiwtoriaid E103

Bydd hyfforddiant ar y modiwl hwn yn cynnwys gweithio fel rhan o dîm o ddarlithwyr cyswllt mewn grŵp clwstwr. Byddwch yn gweithio fel rhan o dîm cydweithredol, gan rannu tasgau hyfforddi ar gyfer tiwtorialau wyneb yn wyneb a thiworialau ar-lein. Bydd tiwtorial ar-lein cyfatebol ar gyfer pob tiwtorial wyneb yn wyneb, a fydd yn ymdrin â chynnwys tebyg i'r hyn a gyflwynir yn y tiwtorialau wyneb yn wyneb

Manylion y modiwl – gallwch gael eglurhad llawn ar y wefan

Credydau a ddyfernir i'r myfyriwr am gwblhau modiwl yn llwyddiannus:	60
Nifer yr aseiniadau a gyflwynir gan y myfyriwr:	4
Dull cyflwyno aseiniadau:	2
Lefel y gofynion TGCh:	2
Nifer y myfyrwyr sy'n debygol o fod mewn grŵp safonol:	20
Band cyflog:	8
Nifer amcangyfrifedig yr oriau fesul wythnos addysgu:	6